

Flintshire Childcare Finder / Darganfyddwr Gofal Plant Sir y Fflint

What is it?

A new Facebook group, set up and moderated by Family Information Service Flintshire to help match up parents and carers seeking childcare with registered childcare providers in Flintshire.

How it works

Parents looking for childcare?

Please private message us on Facebook or email fisf@flinthshire.gov.uk with what you are looking for – we will then post to this group on your behalf and childcare settings can message us directly if they have availability. Comments on posts will not be allowed.

Please ensure that you provide any particular requirements.

Posts will be time limited and removed after 2 weeks.

Childcare settings with spaces to fill?

Please private message us on Facebook or email fisf@flinthshire.gov.uk with details of spaces you have available and we will post on the group on your behalf.

Or read through the posts to see if anyone is looking for childcare in your area, then contact us and we will put the parent in touch with you.

We will remain in contact with you to ensure that the information posted is still accurate and relevant.

You may use this page to advertise spaces, job vacancies, or any events that you are holding. You may also submit photographs (subject to your own permissions) of your setting / activities etc. All Flintshire registered childcare settings are free to use the page in this way, making it fair for all. You will need to submit anything you would like to post on the page to us by direct message or email. Comments on posts will not be allowed.

Why are we doing it like this rather than allowing posts and comments?

We want to offer a service which will allow parents and childcare settings to look for childcare and advertise spaces at the same time as protecting privacy and offering the most impartial information possible.

When we advertise spaces on behalf of a childcare setting, you can be assured that the setting is fully registered. However, it will be up to you to independently assess whether the setting is right for you and your child.

We are trialing this group, and may change the way we do things in the future. If you have any comments or suggestions, please feel free to message us on here or email us at fisf@flintshire.gov.uk

Darganfyddwr Gofal Plant Sir y Fflint

Beth yw hwn?

Grŵp Facebook newydd, wedi'i sefydlu a'i gymedroli gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint i helpu i baru rhieni a gofalwyr, sy'n chwilio am ofal plant, gyda darparwyr gofal plant cofrestredig yn Sir y Fflint.

Sut mae'n gweithio

Rhieni'n chwilio am ofal plant?

Anfonwch neges breifat atom ar Facebook neu anfonwch e-bost at fisf@flinthsire.gov.uk yn cynnwys yr hyn rydych yn chwilio amdano – byddwn wedyn yn cyhoeddi neges yn y grŵp hwn ar eich rhan a bydd lleoliadau gofal plant yn gallu anfon neges atom yn uniongyrchol os oes ganddynt le.

Ni chaniateir gadael sylwadau ar negeseuon.

Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw ofynion penodol.

Bydd cyfyngiad amser ar y negeseuon a byddant yn cael eu dileu ar ôl pythefnos.

Lleoliadau gofal plant gyda lleoedd gwag i'w llenwi?

Anfonwch neges breifat atom ar Facebook neu anfonwch e-bost at fisf@flinthsire.gov.uk gyda manylion y lleoedd sydd gennych ar gael a byddwn yn cyhoeddi neges yn y grŵp ar eich rhan.

Neu darllenwch drwy'r negeseuon i weld os oes unrhyw un yn chwilio am ofal plant yn eich ardal, yna cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi'r rhieni mewn cysylltiad â chi.

Byddwn yn aros mewn cysylltiad â chi i sicrhau bod y wybodaeth a gyhoeddwyd yn dal yn gywir ac yn berthnasol.

Cewch ddefnyddio'r dudalen hon i hysbysebu lleoedd gwag, swyddi gwag neu unrhyw ddigwyddiad rydych yn ei gynnal. Gallwch hefyd gyflwyno lluniau (yn amodol ar eich caniatâd eich hun) o'ch lleoliad / gweithgareddau ac ati. Mae pob lleoliad gofal plant cofrestredig yn Sir y Fflint yn rhydd i ddefnyddio'r dudalen yn y modd hwn, gan ei gwneud yn deg i bawb. Bydd rhaid i chi anfon unrhyw beth yr hoffech ei gyflwyno atom mewn neges uniongyrchol neu e-bost. Ni chaniateir gadael sylwadau ar negeseuon.

Pam ydym ni'n gwneud hyn yn y modd hwn yn hytrach na chaniatáu negeseuon a sylwadau cyhoeddus?

Rydym eisiau cynnig gwasanaeth a fydd yn caniatáu i rieni edrych am ofal plant ac i leoliadau gofal plant hysbysebu lleoedd gwag gan ddiogelu preifatrwydd a chynnig y wybodaeth fwyaf diduedd bosibl.

Pan rydym yn hysbysebu lleoedd gwag ar ran lleoliad gofal plant, gallwch fod yn dawel eich meddwl bod y lleoliad wedi'i gofrestru'n llawn. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi fydd asesu a yw'r lleoliad yn iawn i chi a'ch plentyn.

Rydym yn treialu'r grŵp hwn, ac mae'n bosib y byddwn yn newid ein ffordd o wneud pethau yn y dyfodol. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, mae croeso i chi anfon neges atom yma, neu anfon e-bost at fisf@flintshire.gov.uk.